**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:**03 Gorffennaf 2018 | |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 18 Gorffennaf 2018 |

**PWNC**

Eitem 6:AD-DREFNU DARPARIAETH ADDYSG GYNRADD YM MANGOR

**PENDERFYNIAD**

- Cymeradwyo'r cynnig i gau Ysgolion Glanadda a Babanod Coed Mawr ar 31 Awst 2020, a chynnig lle i'r disgyblion yn Ysgol y Garnedd (yn ddarostyngedig i ddewis rhieni); a chynyddu capasiti Ysgol y Garnedd i 420.
- Cymeradwyo cyhoeddi rhybuddion statudol ar y cynnig uchod yn unol â gofynion Adran 48 o ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013.

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Ar 13 Mawrth 2018 bu i'r Cabinet benderfynu i gytuno i gynnal ymgynghoriad statudol, yn unol ag Adran 48 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgol (Cymru) 2013, yn nalgylch Bangor ar gynnig i gau Ysgolion Glanadda a Choedmawr a chynnig lle i'r disgyblion yn Ysgol y Garnedd.

Bu i'r ymgynghoriad gael ei ganiatáu yn dilyn hysbysiad gan Lywodraeth Cymru yn nodi fod cyfle i Awdurdodau Lleol i gyflawni prosiectau ychwanegol oddi mewn Band A Rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif.

Yn dilyn derbyn canlyniadau'r ymgynghoriad mae'n ofynnol ystyried canlyniadau'r ymgynghoriad a dod i benderfyniad ar gyhoeddi'r cynnig drwy rybudd statudol dan adran 48 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion ( Cymru) 2013.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Derbyniwyd datganiad o fuddiant gan Cyng. Richard Medwyn Hughes, gan ei fod yn aelod o Lywodraethwyr un o'r Ysgolion sydd yn cael eu trafod.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Cynhaliwyd ymgynghoriad yn unol â gofynion 48 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion ( Cymru) 2013 a Chod Trefniadaeth Ysgolion 2013

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad. Bu i'r aelodau lleol Bangor roi eu barn ar lafar yn rhan o'r cyfarfod.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:**03 Gorffennaf 2018 | |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 18 Gorffennaf 2018 |

## PWNC

Eitem 7:ADRODDIAD PERFFORMIAD CYNGOR GWYNEDD 2017/18

## PENDERFYNIAD

Cymeradwywyd Adroddiad Perfformiad Gwynedd 2017/18 ac i roi argymhelliad i'r Cyngor Llawn ei fabwysiadu.

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Yn unol a chyfundrefn rheoli perfformiad y Cyngor, cyflwynir Adroddiad Performiad Gwynedd 2017 i'r Cabinet yn gyntaf am gymerdwyaeth cyn mynd i'r Cyngor Llawn.

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

## UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd hefyd a'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:**03 Gorffennaf 2018 | |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 18 Gorffennaf 2018 |

## PWNC

Eitem 8:CYNLLUN TWF GOGLEDD CYMRU - DIWEDDARIAD CYNNYDD A TREFN LLYWODRAETHU

## PENDERFYNIAD

Penderfynwyd i:

a) Nodi a chroesawu cynnydd datblygiad cais y Cynllun Twf ar gyfer y rhanbarth
b) Bod y Cytundeb Llywodraethu, cam cyntaf a sefydlu Cydbwyllgor ar gyfer y Cynllun Twf yn derbyn cymeradwyaeth yn ddarostyngedig i gadarnhad y Cyngor Llawn (yn ei gyfarfod ar 12 Gorffennaf, 2018) o'r trefniadau ar gyfer Craffu.
c) Bod drafft terfynol o Gais y Cynllun Twf yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor ym mis Hydref 2018 i'w gymeradwyo cyn bod Penawdau'r Telerau yn cael eu cytuno gyda Llywodraeth Prydain a Llywodraeth Cymru.
d) Bod hawl yn cael ei ddirprwyo i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol a'r Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol mewn ymgynghoriad a'r Arweinydd i wneud man newidiadau i'r Cytundeb Llywodraethu cam cyntaf drafft yn ôl yr angen er cwblhau'r cytundeb.

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Yn mis Medi 2018, bu i'r Cabinet gadarnhau cefnogaeth i'r model Cydbwyllgor ar gyfer y Cynllun Twf. Yn ychwanegol awdurdodwyd yr Arweinydd i fod yn gynrychiolydd y Cyngor ar y 'Cyd-bwyllgor Cysgodol' yn y cyfnod interim.

Bellach mae angen ffurfioli'r trefniadau cyfansoddiadau ar gyfer cyd- bwyllgor, Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, ynghyd a rhoi'r hawl i'r Bwrdd wneud penderfyniadau, o fewn cyfyngiadau penodol. Y Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru sy'n cyd-gordio cais 'Cynllun Twf' ar gyfer Gogledd Cymru, sy'n ymwneud a thargedau adnoddau sylweddol a phwerau newydd i'r rhanbarth, yn bennaf er mwyn cryfhau'r economi a chreu swyddi.

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

## UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â’r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:**03 Gorffennaf 2018 | |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 18 Gorffennaf 2018 |

## PWNC

Eitem 9:YMATEB CYNGOR GWYNEDD I DDYFODIAD DEDDFWRIAETH DATA DEWYDD

## PENDERFYNIAD

Mabwysiadu'r polisi a'r drefn ddiwygiedig fel rhan o'r gwaith o gyfarch gofynion newydd ym maes diogelu data.

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Er mwyn sicrhau sêl bendith y Cabinet i drefniadau'r Cyngor ar gyfer cyfarch gofynion deddfwriaeth diogelu data newydd mae angen i'r Cabinet wybod beth yw'r gwaith paratoi sydd wedi mynd rhagddo fel ymateb i'r Cyngor i'r newidiadau yn y ddeddfwriaeth.

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

## UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:**03 Gorffennaf 2018 | |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 18 Gorffennaf 2018 |

**PWNC**

Eitem 10:COD YMARFER CYFLOGAETH FOESEGOL MEWN CADWYNIO CYFLENWI

**PENDERFYNIAD**

Cytunwyd i ymrwymo i'r Cod Ymarfer Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi.

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi Cod Ymarfer ar gyflogaeth foesegol mewn cadwyni cyflenwi mewn ymgais i ddileu arferion cyflogaeth anghyfreithlon ac anfoesegol. Eu nod yw amlygu'r angen, yn ystod pob cam o'r gadwyn cyflenwi, i sicrhau bod trefniadau cyflogaeth briodol i'r holl weithwyr sydd yn ymwneud a'r ddarpariaeth. Mae cais gan Lywodraeth Cymru i bob sefydliad cyhoeddus ymrwymo i'r Cod Ymarfer.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:**03 Gorffennaf 2018 | |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 18 Gorffennaf 2018 |

## PWNC

Eitem 11:CYNLLUN DYLETSWYDD BIOAMRYWIAETH

## PENDERFYNIAD

Mabwysiadu'r  Cynllun Dyletswydd Bioamrywiaeth Gwynedd.

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Er mwyn cydymffurfio â dyletswydd A6 o Ddeddf Amgylchedd Cymru, mae'n ofynnol i awdurdodau cyhoeddus baratoi a chyhoeddi cynllun sy'n nodi'r hyn y maent yn bwriadu ei wneud i gynnal a gwella bioamrywiaeth a hyrwyddo cydnerthedd

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

## UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:**03 Gorffennaf 2018 | |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 18 Gorffennaf 2018 |

## PWNC

Eitem 12:LLE I ALW YN GARTREF: EFFAITH A DADANSODDIAD

## PENDERFYNIAD

Cymerdawyo camau pellach mewn ymateb i'r arolwg dilynol sydd wedi ei wneud gan y Comisiyndd Pobl Hŷn o'r adroddioad gwreiddiol – Lle i'w Alw'n Gartref.

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Yn 2014 cyflwynodd Comisiynydd Pobl Hŷn ddarganfyddiadau eu hadolygiad o Gartrefi Gofal. Amlygwyd yn glir yr angen sylweddol i newid a sicrhau fod ansawdd bywyd i bobl hŷn yn ganolog i'r system gofal. Yn dilyn yr adroddiad cytunwyd ar raglen waith, sydd wedi dylanwadu'n sylweddol ar waith dydd i ddydd yr Adran Oedolion.

Yn Ionawr 2017, cafwyd cais gan y Comisiynydd Pobl Hŷn am wybodaeth a oedd yn gofyn am dystiolaeth fod yr hyn a gytunwyd arno fel rhaglen waith yn 2015 wedi ei weithredu.

Cafwyd cais gan y Comisiynydd Pobl Hŷn ddechrau'r flwyddyn yn gofyn am dystiolaeth ar gyfer eu hadroddiad terfynol a'r dadansoddiad unigol, a gofynnwyd i hyn gael ei drafod ar lefel Cabinet.

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

## UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:**03 Gorffennaf 2018 | |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 18 Gorffennaf 2018 |

## PWNC

Eitem 13:ADRODDIAD BLYNYDDOL IECHYD, DIOGELWCH A LLESIANT

## PENDERFYNIAD

Cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol Iechyd Diogelwch a Llesiant.

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Mae ymrwymiad Arweinydd y Cyngor yn nodi ein polisi Iechyd a Diogelwch y bydd yn sicrhau fod y Cabinet ym monitro perfformiad Iechyd a diogelwch y Cyngor. Ymagais oedd yr adroddiad i ddarllunio'r sefyllfa gyffredinol ar draws y Cyngor.

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

## UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:**03 Gorffennaf 2018 | |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 18 Gorffennaf 2018 |

**PWNC**

Eitem 14:BLAEN RAGLEN Y CABINET

**PENDERFYNIAD**

Cymeradwyo'r Blaen raglen a gynhwyswyd yn y papurau i'r cyfarfod.

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Yn unol ag Adran 14.13 o Gyfansoddiad y Cyngor, bydd y Cabinet yn rhannu ei Flaen Raglen waith am y cyfnod dilynol o chwe mis gyda'r cyhoedd. Bydd y Blaen Raglen yn cael ei chyhoeddi ar wefan y Cyngor.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn.